# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 19 Hydref 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd yr Aelodau Cyfetholedig Mike Hall, Kathy Jones a Gareth Williams yn bresennol ar gyfer eitem 5

Mynychodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, ar gais y Pwyllgor

Sylwedyddion – y Cynghorwyr Eryl Williams ac Emrys Wynne

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant (KE), Prif Reolwr Cymorth Addysg (GD), Rheolwr Rhaglen – Moderneiddio Addysg (JC), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## CROESO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a llongyfarch Mr Graham Boase ar ei swydd newydd fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Pharth Cyhoeddus y Cyngor. Estynnodd y Cadeirydd groeso arbennig i Mike Hall, Aelod Cyfetholedig, sy'n mynychu ei gyfarfod pwyllgor cyntaf fel Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol ag eitem 5 ar y rhaglen -

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Pen Barras
Y Cynghorydd Merfyn Parry - Llywodraethwr Ysgol Rhewl, Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor
Y Cynghorydd Arwel Roberts – Llywodraethwr Ysgol y Castell ac Ysgol Dewi Sant
Y Cynghorydd Huw Williams – Rhiant plentyn yn Ysgol Pen Barras

Y Cynghorydd Emrys Wynne – Llywodraethwr Ysgol Borthyn ac, ynghyd ag aelodau o’i deulu, yn rhan o’r ymgyrch i gefnogi addysg Categori 1 (iaith) yn ardal Pentrecelyn a Llanfair Dyffryn Clwyd.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2017 fel cofnod cywir.*

## 5 GWERSI YN DILYN ADOLYGIAD O ADDYSG GYNRADD ARDAL RHUTHUN

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc adroddiad Prif Reolwr Cymorth Addysg (a gylchredwyd ymlaen llaw). Dywedodd bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno ar gais y pwyllgor oherwydd, yn ystod cyfnod y Cyngor diwethaf, bod yr aelodau wedi gofyn am adolygiad o gynnydd adolygiad addysg gynradd ardal Rhuthun er mwyn deall y gwersi a ddysgwyd yn ystod yr ymarfer a cheisio gwella prosesau adolygiadau tebyg.

Er budd aelodau newydd, amlinellodd yr Aelod Arweiniol a Phennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant gefndir yr adolygiadau addysg gynradd sydd wedi eu cynnal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedwyd mai amcanion yr adolygiadau yw –

- Sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth addysg o ansawdd uchel ar draws y sir
- Gwella safon adeiladau a chyfleusterau ysgolion
- Sicrhau bod y nifer a’r math cywir o leoedd ysgolion ar gael yn y lleoliadau cywir

Bu iddynt hefyd bwysleisio bod adolygiad addysg gynradd ardal Rhuthun wedi ei gynnal tra bo tri Gweinidog/ Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru gwahanol wedi bod yn gyfrifol am y portffolio addysg. Roedd gan bob un ddull neu bwyslais ychydig yn wahanol i’r llall o ran yr angen i fynd i’r afael â lleoedd ysgolion gwag os bwriedir gwneud cais am gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleusterau addysgol. Dechreuodd Sir Ddinbych foderneiddio ei wasanaethau addysg yn 2009 ar ôl mabwysiadu Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg. Roedd y fframwaith hwn yn sylfaen i’r Cyngor gynllunio sut a lle y byddai modd darparu gwasanaethau addysg yn y dyfodol. Roedd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru ar y pryd yn glir iawn ynghylch bod yn rhaid i awdurdodau lleol fynd i’r afael â lleoedd ysgolion gwag os oedd arnynt eisiau gwneud cais am gyllid Ysgolion yr 21ain ganrif gan Lywodraeth Cymru. Roedd dangos tystiolaeth o sut y bwriedir mynd i’r afael â lleoedd gwag yn ofyniad allweddol wrth gyflwyno ceisiadau am gyllid Ysgolion yr 21ain ganrif ar gyfer prosiectau cyfalaf addysgol. Er mwyn i’r Cyngor dderbyn y cyllid hwn roedd yn rhaid ad-drefnu ysgolion, felly roedd cau rhai ysgolion yn anorfod. Pwysleisiodd y Gweinidog yr angen i fynd i’r afael â lleoedd gwag pan ysgrifennodd at awdurdodau lleol yn 2012. Ym mis Mehefin 2013 bu i’r Cabinet gymeradwyo’r chwe argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â

dyfodol addysg gynradd yn ardal Rhuthun. Fodd bynnag, ym mis Hydref y flwyddyn honno cyflwynodd Llywodraeth Cymru God Trefniadaeth Ysgolion a oedd â goblygiadau mawr o ran manylder yr wybodaeth a oedd angen ei darparu yn ystod y camau ymgynghori ffurfiol ynghylch cynigion i ad-drefnu ysgolion. Tra bod y cod yn fanwl iawn ynghylch gofynion gorfodol y broses ymgynghori roedd hefyd yn cynnwys awgrymiadau ar y camau 'y dylid' eu cymryd. Fodd bynnag nid oedd yn gofyn i awdurdodau lleol gymryd y camau hynny. Wrth edrych yn ôl byddai wedi bod yn well petai'r Cyngor wedi cymryd y camau hyn oherwydd iddo fethu bodloni'r gofynion hyn yn yr achosion y cyfeiriwyd at y Gweinidog a'r Uchel Lys. Dywedwyd hefyd bod y Cyngor yn dal yn aros am benderfyniad gweinidogol ynghylch ail apêl yn erbyn y penderfyniad i gau Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd, deunaw mis ar ôl atgyfeirio'r penderfyniad at Lywodraeth Cymru.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r swyddogion:

- Mai dyletswydd statudol y Cyngor mewn perthynas ag addysg yw darparu addysg o'r radd flaenaf i ddisgyblion y sir.
- Er mwyn gwneud hyn a sicrhau bod gan ddisgyblion fynediad i gyfleusterau sy'n briodol ar gyfer darparu cwricwlwm modern, gan gynnwys pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Roedd hyn yn golygu cau adeiladu hŷn nad oedd modd eu haddasu ac uno ysgolion llai neu, fel arall, ni fyddai'r awdurdod addysg yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau i ddisgyblion y sir. O ran categorïau iaith yr ysgolion, elfen sydd wedi bod yn bwnc llosg rhai o'r cynigion ad-drefnu adolygiad addysg gynradd ardal Rhuthun, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau y bydd yn edrych ar gategorïau iaith ysgolion yn y dyfodol agos
- Cadarnhawyd bod adborth gan fudd-ddeiliaid, gan gynnwys cyrff llywodraethu a rhieni, yn cael ei groesawu a'i werthfawrogi yn ystod prosesau ymgynghori
- Yn dilyn proses adolygu mae'r awdurdod lleol bellach wedi derbyn eglurhad ar rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod addysg, penaethiaid a chyrff llywodraethu mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir ac ysgolion nas cynhelir wrth ymgynghori ynghylch unrhyw gynnig
- Cytunwyd bod hi'n bwysig datblygu strategaeth ochr yn ochr â chynigion ad-drefnu pan fo'r cynigion yn golygu gwagio adeiladau er mwyn gwaredu adeiladau gwag ac ati. Mae gwaith yn cael ei wneud gyda Landlord Corfforaethol y Cyngor i ddatblygu strategaeth i reoli a gwaredu adeiladau gwag corfforaethol, gan gynnwys adeiladau ysgol
- Mae cefnogaeth ar gael i benaethiaid, staff, disgyblion a rhieni i'w helpu nhw gyda'r broses bontio o un ysgol/cyfleuster ysgol i'r llall
- Cadarnhawyd, er bod rhai cymunedau yn ymateb yn negyddol i gau ysgolion, yn arbennig hyd nes bydd y plant wedi setlo i mewn i'r cyfleusterau newydd ac yn dechrau manteisio ar y cyfleusterau hynny, bod y gwrthwyneb wedi digwydd yn Llanbedr Dyffryn Clwyd. Arweiniodd y bygythiad i gau'r ysgol at ddod â'r trigolion yn nes at ei gilydd i gydweithio i gefnogi'r ysgol
- Cadarnhawyd bod prinder penaethiaid yng Nghymru. Mae'r anawsterau wrth recriwtio penaethiaid, yn arbennig i ysgolion gwledig bychain, wedi eu hamlygu'n genedlaethol

- Mae llinellau cyfathrebu clir rhwng cadeiryddion cyrff llywodraethu, penaethiaid a'r awdurdod lleol yn bwysig iawn bob amser ac yn allweddol yn ystod ymarferion ymgynghori
- Cadarnhawyd bod dros £100,000 wedi ei fuddsoddi yn ysgolion Sir Ddinbych ers dechrau'r broses Moderneiddio Addysg yn 2009
- Er nad oedd rhieni wedi rhestru safon adeiladau ysgol fel blaenoriaeth uchel yn ystod yr ymgynghoriadau ynghylch y cynigion ad-drefnu, roedd safon y cyfleusterau yn uwch ar sgoriau boddhad rhieni y mae eu plant wedi symud i gyfleusterau modern o ganlyniad i'r adolygiadau blaenorol. Felly, rhagwelir, ar ôl gwerthuso effaith adolygiad ardal Rhuthun ar ôl i'r disgyblion setlo i mewn i'w cyfleusterau newydd y bydd ansawdd y cyfleusterau yn derbyn sgôr uwch gan rieni
- Cadarnhawyd, petai Llywodraeth Cymru yn cefnogi apêl Llanbedr Dyffryn Clwyd, y byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r corff llywodraethu i'w cefnogi nhw i ddarparu addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion
- Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar y newidiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a oedd yn cynnwys rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac nad yw mynd i'r afael â lleoedd gwag o reidrwydd yn golygu cau ysgolion. Fodd bynnag, ni fyddai modd rhoi gweithdrefnau'r cod diwygiedig mewn grym yn adolygol. Bydd presenoldeb lleoedd gwag wastad yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar ysgolion. Ni fydd y cod diwygiedig, ar ôl ei gymeradwyo, yn diffinio dull y Cyngor ar gyfer gwneud cais yn ystod cylch nesaf cyllid Ysgolion yr 21ain ganrif
- Amlinellwyd y meini prawf a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diffinio ysgolion gwledig, a bu iddynt gytuno â'r Pwyllgor nad yw diffiniad presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer dosbarthiad ysgolion gwledig yn foddhaol
- Cadarnhawyd bod y ddau benderfyniad i gau ysgolion, yn Llanbedr Dyffryn Clwyd a Phentrecelyn, a heriwyd ac a apeliwyd, wedi eu cefnogi ar sail drefniadol yn hytrach nag ar y rhesymau addysgol dros gau. Eglurwyd cymhlethdodau proses yr adolygiad barnwrol a'r newid i godau Llywodraeth Cymru yn fanwl
- Nid oes fformiwla benodol ar gyfer penderfynu ar leoliad neu faint optimwm ysgolion ardal. Mae'n rhaid i bob achos gael ei gynnig yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn ôl gwerthusiad o'i botensial i ddarparu cwricwlwm ystyrlon i ddisgyblion. Fodd bynnag, ystyrir nad yw bellach yn briodol darparu cwricwlwm i ddisgyblion o wahanol oedrannau a blynyddoedd ysgol yn yr un dosbarth. Dyma'r rheswm dros ffedereiddio rhai ysgolion yn hytrach na'u huno e.e. Bryn Clwyd a Gellifor
- Cadarnhawyd mai nifer y disgyblion mewn ysgol yw'r ystyriaeth sylfaenol leiaf at ddibenion ad-drefnu ysgolion. Bydd ffactorau eraill yn cael ystyriaeth gyfartal os nad mwy e.e. darparu cwricwlwm, profiadau'r plentyn, atebolrwydd ac arweinyddiaeth
- Dywedwyd bod effaith bosibl y datblygiadau tai arfaethedig sy'n hysbys i'r awdurdod neu wedi eu cynnwyd yn y CDLl wedi ei hystyried yn y cynigion ad-drefnu a gymeradwywyd gan y Cabinet
- Cytunwyd, efallai, bod y cyhoedd wedi cam-ganfod ehangder yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ynghylch adolygiad o ardal Rhuthun, a bod cyfathrebu â thrigolion yn un maes y gellid ei gryfhau cyn cynnal ymgynghoriad ynghylch cylch nesaf prosiectau cyllid Ysgolion yr 21ain ganrif

- Cadarnhawyd bod pryderon wedi eu mynegi o ran effaith bosibl hyfywedd Ysgol Borthyn, Rhuthun, ar ôl i'r ysgolion newydd gerllaw agor. Bydd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa yn ofalus. Tra bod y cynnig yn yr ysgol hon yn wahanol i'r ysgolion newydd, oherwydd ei bod yn ysgol wirfoddol a reolir, bydd yr awdurdod yn darparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio ac i'r dyfodol. Yn ogystal, mae'r ysgolion newydd wedi eu cynllunio'n ofalus o ran lleoedd, ac nid yw'n fwriad cael effaith niweidiol ar Ysgol Borthyn sy'n ysgol gymunedol werthfawr. Wrth gynllunio'r ysgolion newydd rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r effaith bosibl ar ysgolion sefydledig cyfagos
- Mae cyflwyno dewis rhieni o ran darpariaeth ysgol wedi effeithio ar nifer y disgyblion sy'n mynychu eu hysgol leol, gan fod rhieni rŵan yn cludo eu plant i ysgol o'u dewis, llawer o'r ysgolion hyn wrth ymyl eu gweithle
- Cadarnhawyd bod y ddogfennaeth yn ymwneud ag ymgynghoriad arolwg addysg gynradd ardal Rhuthun, ynghyd â'r ymatebion, ar gael i'r aelodau ei harchwilio os ydynt yn dymuno
- Bu iddynt gytuno â'r Pwyllgor y byddai'n briodol adolygu trefniadau ffederasiwn Ysgol Bryn Clwyd, Llandyrnog ac Ysgol Gellifor i werthuso eu heffeithiolrwydd i'r dyfodol
- Cadarnhawyd, yn dilyn casgliad Adolygiad Addysg Gynradd Ardal Rhuthun, ac ar ôl i'r holl ddisgyblion setlo i mewn i'w hysgolion newydd a threulio blwyddyn academaidd gyfan ynddynt, y dylid cynnal asesiad o effaith y newidiadau ar les a chyrhaeddiad addysgol disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned (yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodau lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

Dywedodd yr Aelod Arweiniol blaenorol dros Addysg, o'i brofiad ef o gynnal adolygiad ardal Rhuthun, bod cyfranogiad cynrychiolwyr yr esgobaeth yn y broses o wneud penderfyniadau wedi bod yn heriol ar adegau. Roedd hefyd yn cydnabod nad oes dwy ysgol yr un fath a bod gan bob ysgol ei rhinweddau ei hun. Mae rhai yn asedau cymunedol gwerthfawr ac yn gwasanaethu Cymry Cymraeg lleol ac mae eraill yn cael eu gwerthfawrogi gan rieni sy'n dewis cludo eu plant iddynt.

O ran categori iaith ysgolion, dywedodd un aelod y byddai'n well petai ysgolion yn cael dewis eu categori iaith eu hunain, yn hytrach na gorfod cadw at gategori iaith Llywodraeth Cymru. Byddai dull o'r fath yn helpu disgyblion o bob ysgol yn y sir ddatblygu sgiliau Cymraeg ac yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ar ddiwedd trafodaeth drylwyr:

***PENDERFYNWYD****, ar ôl ystyried y canfyddiadau yn yr adroddiad yn fanwl, ac yn amodol ar y sylwadau uchod -*

*(a) Nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgil cynnal Adolygiad Addysg Gynradd Ardal Rhuthun ac argymell bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw wendid cyn cynnal rhagor o adolygiadau addysg;*

*(b) Paratoi adroddiad er gwybodaeth i'w gylchredeg i aelodau Pwyllgor a Chynghorwyr eraill sy'n dymuno ei dderbyn, yn manylu ar y broses*

*ymgynghori a gynhaliwyd mewn perthynas ag Adolygiad Addysg Gynradd Ardal Rhuthun, gan gynnwys manylion yr holl ymatebion a dderbyniwyd;*

(c) *Monitro'r sefyllfa mewn perthynas â disgyblion a budd-ddeiliaid Ysgol Rhewl yn ofalus hyd nes bod yr ysgol yn cau yn 2018;*

(d) *Monitro’r sefyllfa mewn perthynas â disgyblion a budd-ddeiliaid Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd hyd nes bydd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg wedi penderfynu ar ganlyniad yr apêl;*

(e) *Darparu adroddiad yn gwerthuso’r gefnogaeth a roddir i Ysgol Rhewl ac Ysgol Llanbedr Dyffryn Clwyd i’r Pwyllgor er ystyriaeth yn ystod hydref 2018;*

(f) *Cynnal asesiad llawn o effaith Adolygiad Addysg Gynradd Ardal Rhuthun, yn seiliedig ar egwyddorion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gyntaf y mae’r disgyblion wedi bod yn eu hysgolion newydd, gan gyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor;*

(g) *Bod Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio yn ystyried archwilio’r strategaeth ar gyfer rheoli a gwaredu asedau corfforaethol nad oes eu hagen bellach.*

Yn y fan hyn (12 p.m.) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) sy’n gofyn i’r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- Mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio wedi cyfeirio mater yn ymwneud ag arwyddion twristiaeth Dyffryn Clwyd. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried yr eitem honno yn ei gyfarfod nesaf ar 30 Tachwedd
- Mewn ymateb i’r pryderon a godwyd gan aelodau yn ymwneud â gallu ysgolion amrywiol yn y sir i ymdopi â’r galw am leoedd, anogwyd yr aelodau hynny i lenwi’r ffurflen gais briodol a’i chyflwyno i Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion ar gyfer trafodaeth bellach yn ôl yr angen
- Gofynnwyd cwestiynau am gynigion Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Dywedwyd wrth yr aelodau bod adroddiad ar y cynigion hyn wedi ei gyflwyno i’r Cabinet yn ddiweddar.-Cytunodd y Cydlynydd Archwilio anfon yr wybodaeth honno at aelodau’r pwyllgor
- Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr eitem ar y Polisi Cynnal a Chadw Coed drafft (a oedd wedi ei chynnwys dros dro ar raglen cyfarfod mis Hydref) wedi ei gohirio tan fis Ionawr 2018 gyda chaniatâd y Cadeirydd gan fod angen gwneud rhagor o waith ar y polisi cyn bod modd ei gyflwyno i’r pwyllgor ar gyfer sylwadau
- Mae un eitem ar raglen waith y pwyllgor yn ymwneud â’r Ardreth Seilwaith Cymunedol ond eglurodd y swyddogion nad yw erioed wedi cael ei gyflwyno a bod y cyfrifoldeb drosto wedi ei drosglwyddo o Lywodraeth y DU i Lywodraeth

Cymru. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ardreth gyda'r bwriad o gyflwyno rhywbeth gwahanol ar gyfer Cymru ond, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw arwydd o bryd y bydd y cynigion yn cael eu cyhoeddi. Cytunodd y pwyllgor i dynnu'r eitem oddi ar y rhaglen waith ac ystyried craffu ar y cynigion unwaith maent wedi eu cyhoeddi

- Tynnwyd sylw'r aelodau ar yr wybodaeth a gylchredwyd ymlaen llaw a oedd yn cynnwys diweddariad ar y materion a godwyd yn y cyfarfod blaenorol nad ydynt wedi eu nodi yn adroddiad y rhaglen waith.
- Gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau pwyllgor yn dilyn derbyn cais i enwebu cynrychiolydd ar gyfer y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, mae'r manylion wedi eu cylchredeg
- Yn olaf, atgoffwyd yr aelodau bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal hyfforddiant Sgiliau Cadeirio ar gyfer pwyllgorau craffu am 2.00 p.m. ddydd Iau, 2 Tachwedd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun

Wedi trafod y materion uchod:

***PENDERFYNWYD –***

*(a) Yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a geir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.*

*(b) Penodi'r Cynghorydd Graham Timms yn gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Cyfeiriodd y Cynghorydd Glenn Swingler at gyfarfod Her Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata y bu iddo ei fynychu'n ddiweddar a soniodd am y drafodaeth ar gael Strategaeth Twristiaeth drosfwaol. Darparodd hefydd ddiweddariad ar 'EMMA' a datblygiad system CRM newydd, gan gyfeirio at y camau cadarnhaol i gynyddu defnydd y Cyngor o'r cyfryngau cymdeithasol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25 p.m.